

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu  
Corfforaethol

Dyddiad: 31 Mai 2018

Rhif Union: 01824706204

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 6 MEHEFIN 2018** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am y flwyddyn I ddod.

#### **3 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am y flwyddyn I ddod.

#### **4 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **5 MATERION BRYD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**6 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 20178 (copi wedi ei amgáu).

**7 DEILLIANNAU AROLWG ESTYN YN SIR DDINBYCH 2018** (Tudalennau 15 - 32)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg (copi'n amgaeedig) am Arolwg diweddar Estyn yn yr Awdurdod.

**8 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 33 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Prif Archwilydd Mewnol (copi wedi'i amgáu) yn rhoi gwybod i aelodau am gynnydd Archwilio Mewnol.

**9 CANLLAW YMARFEROL SEFYDLIAD SIARTREDIG CYLLID CYHOEDDUS A CHYFRIFYDDIAETH AR GYFER PWYLLGORAU ARCHWILIO 2018** (Tudalennau 47 - 48)

I ystyried adroddiad gan y Prif Archwilydd Mewnol (copi'n amgaeedig) am y canllaw diwygiedig a rhifyn diweddaraf o "Pwyllgorau Archwilio – Canllaw Ymarferol i Awdurdodau Lleol a'r Heddlu".

**10 ARCHWILIAD MEWNOL O UNED CAFFAEL CORFFORAETHOL AR Y CYD** (Tudalennau 49 - 66)

Ystyried adroddiad gan y Prif Archwilydd Mewnol (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi manylion yr adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar Uned Caffael Corfforaethol ar y Cyd a gafodd sgôr sicrwydd 'Isel'.

**11 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 67 - 70)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi wedi'i amgáu).

**RHAN 2 - EITEMAU CYFRINACHOL**

Dim

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Mabon ap Gwynfor  
Tony Flynn  
Martyn Holland

Alan James  
Barry Mellor

**Aelod Lleyg**

Paul Whitham

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, dydd Mercher, 25 Ebrill 2018 am 9.30am.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Tony Flynn, Martyn Holland (Is-gadeirydd), Alan James a Barry Mellor (Cadeirydd)

Aelod Lleyg Paul Whitham

Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad.

Y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth.

Arsylwyr - Y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies, Glenn Swingler, Tony Thomas ac Emrys Wynne

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd (GW), Pennaeth Cyllid (RW), Prif Archwilydd Mewnol (LL), Archwilydd Mewnol (IG), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK), Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymunedol a Busnes (AH), Swyddog Arweiniol - Contractau a Chyfleusterau (NH) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ)

Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru – Anthony Veale, Michelle Phoenix a Gwilym Bury.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Dim.

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Tony Flynn gysylltiad personol yn eitem 5 ar y rhaglen – Adroddiad Atal Digartrefedd, gan ei fod yn landlord eiddo rhent.

Datganodd y Cynghorydd Barry Mellor a'r Cynghorydd Alan James gysylltiad personol yn eitem 7 ar y rhaglen – Diweddariad Archwilio Mewnol, gan fod y ddau ar y bwrdd Partneriaeth TCC.

### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw fater bryd.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 07 Chwefror 2018.

Dim materion yn codi.

**PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel cofnod cywir.

## 5 ADRODDIAD ATAL DIGARTREFEDD

Datganodd y Cynghorydd Tony Flynn gysylltiad personol â'r eitem hon ar y rhaglen.

Darparwyd adroddiad gwybodaeth gan y Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cymunedol a Busnes (a gylchredwyd yn flaenorol).

Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yn bresennol ar gyfer yr eitem.

Eglurodd Rheolwr y Gwasanaeth (SM) fod yr adroddiad gwasanaeth wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau 3 Mai 2018 er mwyn cael trafodaeth. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol er gwybodaeth, ac i roi sicrwydd i aelodau bod y gwasanaeth wedi ymateb i'r argymhellion a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn dilyn trafodaethau, cadarnhaodd yr SM -

- Roedd cyllideb y flwyddyn ar y gweill wedi'i phennu
- Roedd Aelodau wedi cael gwybod am y gwahaniaeth rhwng llety mewn argyfwng a dros dro
- Cynhyrchwyd yr adroddiad i fynd ati i atal digartrefedd yn Sir Ddinbych. Roedd gwaith i atal digartrefedd yn Sir Ddinbych wedi dechrau, a byddai'n parhau ochr yn ochr â'r cynllun gweithredu (cynllun gweithredu'n amgaeedig)
- Roedd gwaith gyda gwasanaethau eraill wedi parhau, roedd perthnasau gyda thrydydd parti wedi parhau ochr yn ochr â'r cynllun gweithredu

Diolchodd y Cadeirydd y Swyddog a'r Aelod Arweiniol am yr adroddiad a'r gwaith a oedd wedi'i ddechrau ar y cynllun gweithredu. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau bod yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau'n cael ei drafod mewn manylder.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## 6 CYDYMFFURFIO Â PHOLISI RHEOLI RISGIAU SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (SPTM) yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol), i grynhoi sut cafodd y gofrestr Risg Gorfforaethol ei monitro yn yr awdurdod.

Cytunwyd ar fersiwn ddiweddaraf ffurfiol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn Sesiwn Briffio'r Cabinet 9 Ebrill 2018, ac fe'i cyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Craffu Perfformiad er mwyn ei ystyried 26 Ebrill 2018. Roedd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei hadolygu'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet a'r Tîm Gweithredu Corfforaethol (CET), gydag unrhyw risgiau sylweddol newydd neu sy'n dwysáu, wedi'u nodi gan CET.



Fe wnaeth yr SPTM arwain aelodau drwy'r adroddiad a'r atodiadau a oedd yn amgaaedig. Yn dilyn trafodaethau, trafodwyd y pynciau canlynol -

- Credyd Cynhwysol – Cadarnhaodd yr SPTM fod briff wedi'i dderbyn gan bob cyfarfod Grŵp Ardal Aelodau ynghylch gweithredu'r system Credyd Cynhwysol newydd.
- Ymosodiadau seiber – Roedd y risg o ymosodiad seiber wedi'i hymchwilio ac roedd diweddariad i Risg iii i gynnwys ymosodiad seiber wedi'i gynnwys.
- Diogelu Data – Gyda gweithrediad y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd, roedd diweddariad i Risg iv wedi'i ddiwygio i gynnwys y ddeddfwriaeth newydd. Roedd gwaith wedi dechrau i leihau'r maes hwn o risg, a byddai monitro'n parhau yn dilyn gweithrediad.
- Byrddau Corfforaethol – Roedd dau Fwrdd Corfforaethol wedi'u sefydlu i reoli'r Cynllun Corfforaethol.
- Gweithio gydag awdurdodau cyfagos – Cadarnhaodd yr SPTM fod gwaith wedi'i wneud ar sefydlu perthnasau gwaith gydag awdurdodau cyfagos. Roedd arsylwadau wedi digwydd i sefydlu rhyngweithiadau cadarnhaol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol am yr adroddiad tryloyw.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## **7 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Datganodd y Cynghorydd Barry Mellor gysylltiad personol â'r eitem hon ar y rhaglen (Adroddiad TCC).

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol (CIA) adroddiad diweddar Archwilio Mewnol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth sbarduno gwelliant.

Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am waith yr Adain Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Aeth y CIA drwy'r adroddiadau a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hyd at fis Mawrth 2018 ar:

- Adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynwyd yn ddiweddar
- Camau dilynol Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Cynnydd gwaith Archwilio Mewnol hyd yma yn 2017 - 18.
- Crynodeb o brosiectau nesaf yr Adain Archwilio Mewnol
- Safonau Perfformiad Archwilio Mewnol

Codwyd y materion canlynol wrth drafod –

- Gwasanaethau Ariannol – Eglurodd y CIA i aelodau fod sawl adroddiad archwilio wedi'u cwblhau mewn perthynas â'r Gwasanaethau Ariannol i gyd yn rhoi sicrwydd uchel. Roedd gwaith yn parhau ar y pwyntiau gweithredu a godwyd gan archwilio mewnol. Roedd gwaith wedi'i wneud i leihau'r ganran uchel o anfonebau a anfonwyd heb archeb brynu. Eglurodd y CIA fod unrhyw dueddiadau neu glystyrau problematig yn cael eu harwain a'u cefnogi i leihau achosion o anfonebau heb archeb brynu lle bo'n bosibl.

- Rheoli'r Risg o Dwyll – Mesurau Ataliol - Eglurodd y CIA fod cynllun Gwrth-dwyll a Llygru wedi'i ddatblygu gan Archwilio Mewnol, a rhoddodd eglurhad ynghylch rhai o'r gweithdrefnau a oedd yn eu lle i atal twyll. Eglurodd y Swyddog Monitro fod polisiâu yn eu lle i uwch swyddogion ddatgan cysylltiadau personol. Roedd angen codi lefel ymwybyddiaeth staff o'r polisiâu a'r gweithdrefnau.
- Teithio a Chynhaliaeth – Rhoddwyd cadarnhad gan y CIA i'r pwyllgor ar weithrediad llwyddiannus y modiwl electronig newydd ar gyfer prosesu costau teithio. Eglurodd y CIA fod y polisi'n datgan bod yn rhaid i bob gweithiwr gwblhau Ffurflen Ganiatâd Hawl i Yrru, o fewn yr archwiliad, cafodd Staff Sir Ddinbych a ddefnyddiodd y system newydd eu harchwilio, ond nid oedd hyn yn cynnwys aelodau.
- Llywodraethu Partneriaeth TCC – Cododd Aelodau'r diffyg gwybodaeth a gyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod peth gwybodaeth wedi'i chyflwyno i fwrdd y Bartneriaeth yn ystod ei chyfarfodydd. Roedd y berthynas rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Partneriaeth TCC yn gwella.  
Cododd trafodaethau ynghylch adroddiad i Lywodraethu Corfforaethol yn diweddarau aelodau ar y berthynas a oedd gan y Sir gyda darparwyr trydydd parti. Cadarnhaodd y CIA fod gwaith wedi dechrau ar adroddiad yn ymchwilio i waith a roddwyd gan drydydd parti.

**PENDERFYNWYD** fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad wedi'i ddiweddarau ac yn nodi ei gynnwys, a bod adroddiad Sicrwydd Partneriaeth blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ddyddiad diweddarach.

Ar y pwynt hwn (11.10 a.m.) cafwyd egwyl o 10 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.20 a.m.

## 8 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol (CIA) adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i roi'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2018-19 i'r Pwyllgor.

Aeth y CIA â'r aelodau drwy'r adroddiad a roddodd wybodaeth, ymhelaethodd y CIA ar -

- Roedd gan y cynllun archwilio mewnol elfen fawr o hyblygrwydd a oedd yn caniatáu i waith gael ei gwblhau a'i flaenoriaethu yn unol â hynny
- Mae gwaith gwrth-dwyll a llygredd yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor. Bydd gwaith yn parhau yn y maes hwn, gydag adroddiadau'n cael eu cyflwyno i Lywodraethu Corfforaethol mewn cyfarfodydd o'r dyfodol.
- Cadarnhaodd y CIA fod Cyngor Gwynedd wedi cwblhau'r asesiad allanol ym Mawrth 2018. Byddai'r canlyniad a'r cynllun gwella'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol pan fyddent yn dod i law.
- Roedd cyflwyno VERTO i gofnodi cynnydd yn erbyn camau y cytunwyd arnynt wedi lleihau nifer y diwrnodau gofynnol ar gyfer gwaith dilynol, o bosibl.

- Archwilio Mewnol yn ymchwilio i elfennau allweddol o wasanaethau ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gydag unrhyw ganlyniadau a ganfyddir.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Archwilio Mewnol am yr adroddiad a'r wybodaeth. Canmolodd bawb yn ystod yr holl newidiadau o fewn y gwasanaeth dros y 12 mis blaenorol.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## 9 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol (CIA) Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol (a gylchredwyd yn flaenorol). R Rhoddwyd cyflwyniad sioe sleidiau i Aelodau a ddangosodd y gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol yn ystod cyfnod 2017-2018. Rhoddodd yr adroddiad farn gyffredinol y CIA ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac sy'n cyfrannu at y 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol'.

Roedd y CIA wedi rhoi 'sicrwydd canolig' ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd gyffredinol amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg. Cyfeiriodd y CIA at 31 barn archwilio a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn, a chadarnhaodd y byddai'r 4 a nodwyd yn y categori sicrwydd isel yn cael eu monitro. Byddai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael adroddiadau cynnydd gan y gwasanaeth i oruchwylio gweithrediad y gwelliannau y cytunwyd arnynt.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan aelodau ynghylch gwaith a wnaed mewn ysgolion, cadarnhaodd y CIA fod gwaith wedi'i wneud a fyddai'n cynnwys cynllun gweithredu i ysgolion. Roedd gwaith wedi'i wneud i atal twyll. Roedd gwaith wedi'i gwblhau ar bolisiau a gweithdrefnau gan y tîm archwilio, i roi sicrwydd ac arweiniad, ac atal twyll rhag digwydd lle bo'n bosibl. Roedd ymrwymiad gan bob awdurdod i leihau'r lefel o weithgareddau twyllodrus wedi cael cytundeb.

Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd bod elw o fuddsoddiad wedi bod yn destun ymchwiliad ac archwiliad. Cadarnhaodd y CIA fod gwiriadau sampl wedi'u cwblhau mewn ardaloedd i fonitro canfyddiadau ac enillion.

Yn dilyn trafodaeth:

**PENDERFYNWYD** y dylid derbyn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol a derbyn a nodi'r 'farn' gyffredinol.

## 10 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT

Aeth y Prif Archwilydd Mewnol (CIA) â'r aelodau drwy ddrafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (a gylchredwyd yn flaenorol).

Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr adroddiad hunanasesu drafft ar drefniadau llywodraethu a gwella'r Cyngor ar gyfer 2017-18, ac yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor roi sylw ar ddrafft cyntaf y 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol'.

Eglurodd y CIA i aelodau am bwysigrwydd yr adroddiad, gan nodi bod yr adroddiad drafft wedi'i gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddfa Archwilio Cymru am sylwadau.

Amlygodd y CIA y saith egwyddor allweddol i'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Eglurwyd y swyddogaeth sylfaenol o lywodraethu da yn y Cyngor i sicrhau y cyflawnir canlyniadau. Nododd y CIA na fu unrhyw faterion sylweddol i roi gwybod amdanynt gyda'r holl ddiwygiadau a gynhwysir yn atodiad A (copi'n amgaeedig). Holodd y CIA yr aelodau bod unrhyw sylwadau a diwygiadau'n cael eu cyfeirio ati hi i'w hadolygu a'u haddasu lle bo angen.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm Archwilio am yr adroddiad tryloyw ac anogodd aelodau i ddarllen yr adroddiad yn drylwyr a chysylltu â'r CIA gydag unrhyw gwestiynau neu ddiwygiadau.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:

- ii. Yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi ei gynnwys a
- ii. Chyfeirio unrhyw ddiwygiadau neu gwestiynau at y CIA o fewn pythefnos.

## 11 CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynodd cynrychiolydd (AV) o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yr adroddiad a ymgorfforodd Gynllun Archwilio 2018 – Cyngor Sir Ddinbych. Roedd yr adroddiad yn egluro'r rhaglen waith sydd wedi ei chynllunio ar gyfer rhaglen gwaith perfformiad archwilio ariannol a rhaglen waith archwilio perfformiad SAC. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi manylion ffioedd ar gyfer y gwaith, y tîm archwilio a'r amserlen ar gyfer y gwaith.

Darparwyd crynodeb o gynnwys cynllun archwilio 2018 – Cyngor Sir Ddinbych, a oedd yn cynnwys -

- Archwiliad o Gyfrifon
- Archwiliad perfformiad
- Ardystio hawliadau a ffurflenni grant
- Ffi, tîm archwilio ac amserlen
- Datblygiadau i'r gwaith archwilio yn y dyfodol

Darparodd cynrychiolydd SAC drosolwg i'r Pwyllgor o gynnwys yr adroddiad. Yn ystod trafodaethau codwyd y materion canlynol -

- Roedd rhywfaint o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar symleiddio trefniadau sicrwydd, drwy gyflwyno 'Atodlen Gryno o Grantiau Ardystiedig Llywodraeth Cymru' i bob elfen unedol. Dywedodd y cynrychiolydd SAC hwn y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r pwyllgor yn hwyrach ymlaen.
- Eglurodd y swyddog SAC bod agweddau ar risg yn cael eu hymchwilio ac asesiadau risg cyflawn o feysydd cymhleth.
- Rhoddwyd esboniadau i'r dulliau a ddefnyddiwyd wrth gylchredeg gwahoddiadau i seminarau a gweithdai. Rhoddodd cynrychiolydd SAC (GB)

wybod i aelodau am y dull i danysgrifio ar gyfer newyddlen SAC, i gael gwybodaeth am hyfforddiant a chyhoeddi adroddiadau.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## 12 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd eisoes) i'w hystyried.

Cymeradwywyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn amodol ar y diwygiadau canlynol:-

6 Mehefin 2018 -

- Asesiad allanol – Adroddiad Prif Swyddog Gweithredol Archwilio Cyngor Sir Gwynedd – Adroddiad a chynllun Gwella

11 Gorffennaf 2018 -

- Adroddiad Blynyddol Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

26 Medi 2018 -

- Ymholiadau Archwiliad Blynyddol SAC
- Diweddariad ar adroddiad Archwiliad Cyfleustodau Cyhoeddus

21 Tach 2018 -

- Adroddiad sicrwydd trydydd parti blynyddol

**PENDERFYNWYD** yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

**PENDERFYNWYD** dan ddarpariaethau Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14, Rhan 4, o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 13 ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL – CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol (CIA) yr adroddiad cyfrinachol (a gylchreddwyd yn flaenorol), yn rhoi manylion i aelodau ynghylch yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Gyfleustodau Cyhoeddus a oedd wedi cael sgôr sicrwydd 'Isel'. Aeth yr Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, gyda'r Swyddog Arweiniol – Contractau a Chyfleusterau (LO), â'r aelodau drwy'r adroddiad Archwilio. Rhoddodd yr LO ychydig o wybodaeth gefndirol i aelodau, a rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor

Llywodraethu Corfforaethol bod gwaith wedi dechrau ar yr argymhellion o'r archwiliad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am roi'r adroddiad ac am egluro pryderon aelodau.

***PENDERFYNWYD*** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi cynnwys yr adroddiad, a bod adroddiad diweddar'u'n cael ei roi yng nghyfarfod Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Medi.

**Daeth y cyfarfod i ben am 13:10 p.m.**

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>6 Mehefin 2018</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Karen Evans, Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Karen Evans, Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Canlyniadau Archwiliad Estyn Sir Ddinbych 2018</b>

## 1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 I roi diweddariad i'r pwyllgor ar yr Archwiliad Estyn diweddar o'r Awdurdod.

## 2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Fel rhan o raglen gwaith i'r dyfodol Llywodraethu Corfforaethol, gofynnodd y Pwyllgor i adroddiad gael ei gyflwyno yn dangos canlyniad yr archwiliad.

## 3. **Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod Aelodau yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn rhoi sylwadau yn unol â hynny.

## 4. **Manylion yr Adroddiad**

### 4.1 **Cefndir**

4.11 Ym mis Chwefror 2018 cafodd Wasanaethau Addysg yr Awdurdod eu harchwilio gan Estyn. Mae'n rhaid i'r holl Awdurdodau gael eu harchwilio gan Estyn fel rhan o'u cyfundrefn arolygu yng Nghymru. Cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf o Sir Ddinbych yn 2012.

4.12 Fel rhan o'r broses hon bu'n rhaid i'r Awdurdod gyflwyno Adroddiad Hunanwerthuso yn dilyn canllawiau Estyn.

4.13 Yr Awdurdod oedd y cyntaf yng Nghymru i gael eu hasesu'n llawn yn erbyn fframwaith arolygu newydd Estyn sydd yn canolbwyntio ar bob un o'r meysydd canlynol:

<b>Adran</b>	<b>Maes Archwiliad</b>
1	Canlyniadau
2	Ansawdd y Gwasanaethau Addysg
3	Arweinyddiaeth a Rheoli

## 4.2 Canlyniadau'r Archwiliad

4.2.1 Cyhoeddwyd canlyniad archwiliad Estyn o'r Awdurdod yn eu hadroddiad ar gyfer Ebrill 2018. Mae'r adroddiad i'w gael yn Atodiad 1. Tynnir sylw aelodau i'r crynodeb ar dudalen 2 o'r adroddiad hwn.

4.2.2 Croesawyd darganfyddiadau'r adroddiad gan Addysg a Gwasanaethau Plant. Mae Estyn wedi beirniadu arweinyddiaeth a rheoli yn y gwasanaeth i fod yn rhagorol a chanlyniadau ac ansawdd addysg i fod yn dda.

Adran	Maes Archwiliad	Canlyniad
1	Canlyniadau	Da
2	Ansawdd y Gwasanaethau Addysg	Da
3	Arweinyddiaeth a Rheoli	Rhagorol

4.2.3 Sir Ddinbych oedd un o ddim ond dau o awdurdodau i dderbyn rhagorol am arweinyddiaeth yn y rownd ddiwethaf o archwiliadau, ac y cyntaf i gael eu dyfarnu gyda gradd ragorol ar gyfer arweinyddiaeth o dan y fframwaith archwilio newydd a gyflwynwyd ar draws Cymru.

4.2.4 Mae rhan amlwg o'r adroddiad yn dweud "... bod canlyniadau yn Sir Ddinbych yn gadarn ar draws bron iawn yr holl ddangosyddion allweddol am sawl blwyddyn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac yn enwedig ar gyfer Cyfnod Allweddol 4."

4.2.5 Mae Estyn hefyd wedi tynnu sylw at yr uno diweddar ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant i gael "effaith bositif" ar wasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae Estyn hefyd wedi gofyn i Sir Ddinbych baratoi astudiaeth achos ar gyfuno Addysg a Gwasanaethau Plant er mwyn rhannu arfer da gyda chynghorau eraill ar draws Cymru.

4.2.6 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw fod "gan yr awdurdod fwriad moesol cryf sydd yn tanategu ei wasanaethau addysg gan ganolbwyntio ar uchelgais i wneud y mwyaf o gyfleoedd mewn bywyd i bob dysgwr."

4.2.7 Rhai sylwadau allweddol eraill gan Estyn o'r adroddiad fel a ganlyn:

- "Mae'r awdurdod yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn"
- "Mae gan yr awdurdod fwriad moesol cryf sydd yn tanategu ei wasanaethau addysg gan ganolbwyntio ar uchelgais i wneud y mwyaf o gyfleoedd mewn bywyd i bob dysgwr."
- "Safonau disgyblion mewn Cymraeg iaith gyntaf yn parhau yn gadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol"
- "Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth gadarn o ehangder yr addysg ddewisol yn y cartref yn y sir"



- “Nodwedd gadarn o’r awdurdod yw’r ffordd y mae’n ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau sydd yn eu heffeithio nhw a wrth werthuso’r ystod eang o wasanaethau y mae’n ei gynnig”
- “Gall plant ddylanwadu’r broses gwneud penderfyniadau”
- “Mae ysgolion yn gweithio’n dda mewn clystyrau o ysgolion cynradd a’u partneriaid ysgolion uwchradd”
- “Mae’r awdurdod yn gosod disgwyliadau clir i’r holl ysgolion a rhieni mewn perthynas â phresenoldeb disgyblion”
- “Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg”
- “Mae gwasanaethau ieuencid o ansawdd da yn cael eu darparu gan yr awdurdod sy’n cwrdd ag anghenion ystod eang o bobl ifanc”
- “Mae swyddogion ac aelodau etholedig yn gweithredu rhaglen moderneiddio addysg yr awdurdod yn llwyddiannus”
- Mae arweinyddiaeth wleidyddol a strategol yr awdurdod yn effeithiol iawn”
- “Mae dull yr awdurdod i reoli newid cymhleth yn effeithiol iawn”

4.2.8 Mae'r adroddiad yn gadarnhaol iawn ac yn deyrnged i'r gwaith wedi'i wneud i gefnogi Addysg ac Ysgolion yn Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer fechan o argymhellion ac mae cynllun gweithredu yn cael ei lunio i fynd i'r afael â'r rhain. Dyma'r argymhellion:

Argymhellion	
1	Lleihau'r amrywioldeb mewn canlyniadau mewn ysgolion uwchradd
2	Sicrhau fod y gwerthusiad o wasanaethau yn canolbwyntio'n glir ar fesur canlyniadau y mae plant a phobl ifanc yn eu cyflawni trwy'r gwasanaethau hynny.

4.2.9 Mae canlyniad yr adroddiad yn dystiolaeth o'r flaenoriaeth y mae Sir Ddinbych wedi'i roi i Addysg ers nifer o flynyddoedd. Mae'r ymrwymiad i wella Addysg yn barhaus a'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn ffocws a gweledigaeth am flynyddoedd i ddod.

- 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**  
Mae'r gwasanaethau a ddisgrifir yma oll yn cefnogi'r flaenoriaeth i wella addysg, yn unol â'r flaenoriaeth o ran pobl ifanc, a Sir Ddinbych yn fan lle mae ar bobl iau eisiau byw a gweithio ynddo a meddu ar y sgiliau i wneud hynny.
- 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**  
Bydd unrhyw waith cysylltiol gyda'r adroddiad yn y dyfodol yn rhan o swyddogaethau parhaus mewn Addysg a Gwasanaethau Plant.
- 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**  
Dim Asesiad o Effaith ar Les wedi'i wneud. Ddim ei angen fel rhan o'r broses hon.

- 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**  
Mae'r adroddiad wedi'i ddarparu yn dilyn cais gan Lywodraethu Corfforaethol am adborth ar y canlyniadau archwiliad.
  
- 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**  
Mae'n braf gweld ac yn codi calon bod yr adroddiad yn gwneud cyfeiriadau cadarnhaol i'r ffordd y mae'r cyngor yn rheoli'r fformiwla cyllido, cyllidebau a phroses herio ac ymyrraeth i ysgolion gyda diffyg cyllideb wedi'i gynllunio.
  
- 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**  
Mae'r Adroddiad Arolygu yn hynod o gadarnhaol a bydd y 2 camau gweithredu a argymhellir yn cael eu gwneud.
  
- 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**  
Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gyngor Sir Ddinbych  
Neuadd y Sir  
Ffordd Wynnstay  
Rhuthun  
Sir Ddinbych  
LL15 1YN**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Sir Ddinbych

Awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yw Cyngor Sir Ddinbych, sydd â chyfanswm poblogaeth o 94,805. Mae'r sir yn ymestyn o gyrchfannau arfordirol Y Rhyl a Phrestatyn trwy drefi hanesyddol Llanelwy, Dinbych a Rhuthun a Bryniau Clwyd, i Ddyffryn Dyfrdwy a threfi Llangollen a Chorwen. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal wyth ysgol uwchradd, 47 ysgol gynradd, dwy ysgol arbennig ac uned cyfeirio disgyblion.

Arolygwyd yr awdurdod lleol ddiwethaf yn Chwefror 2012. Penodwyd y prif weithredwr ym mis Ebrill 2009 ac mae'r pennaeth addysg a gwasanaethau plant wedi bod yn ei swydd er mis Ionawr 2010. Mae arweinydd y cyngor wedi bod yn ei swydd er mis Tachwedd 2007 ac mae'r prif ddeiliad portffolio ar gyfer gwasanaethau addysg wedi bod yn ei swydd er mis Mai 2017.

Mae Sir Ddinbych yn un o chwe awdurdod lleol yng nghonsortium rhanbarthol GWE ar gyfer gwella ysgolion.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth arfarnu deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Ystyrir y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych wedi'i nodi isod:

- dros gyfartaledd tair blynedd, mae 18.7% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru (18.3%)
- mae 20.3% o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 16.3%
- mae 5.7% o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 10.6%
- mae gan 24.3% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 22.6%
- mae 84 o blant ym mhob 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 95 o blant ym mhob 10,000

## Crynodeb

Dros gyfnod, mae uwch arweinyddiaeth gref iawn yn yr awdurdod lleol wedi sicrhau ffocws penderfynol ar wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer dysgwyr. Enghraifft hynod effeithiol o hyn yw'r ffordd y mae arweinwyr wedi dangos yr hyder i uno'r gwasanaeth addysg a'r gwasanaeth plant yn ddiweddar yn un adran golegol i gyflwyno gwasanaeth integredig cydlynus ac effeithlon. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc, ac effaith fuddiol ar les dysgwyr.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn Sir Ddinbych yn perfformio'n gyson dda. Er bod perfformiad ar draws yr ysgolion uwchradd wedi amrywio dros y tair blynedd ddiwethaf, mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 o ran bron bob un o'r dangosyddion allweddol yn cymharu'n dda dros gyfnod â'r rheiny mewn awdurdodau tebyg ledled Cymru, a gyda deilliannau cenedlaethol.

Mae'r awdurdod yn rhoi pwys mawr ar lais y dysgwr, gan sicrhau bod llawer o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn cyfleoedd pwrpasol i rannu eu barn, eu pryderon a'u syniadau ar gyfer gwella. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i gael cyfryngau cyfathrebu clir ar gyfer gwella gwasanaethau a darpariaeth yr awdurdod.

Mae'r awdurdod lleol yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn ac mae'n eu cefnogi a'u herio'n effeithiol. At ei gilydd, mae ganddo ystod o ddarpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, ac mae'r rhain yn effeithiol ar y cyfan o ran bodloni anghenion plant a phobl ifanc.

<b>Maes arolygu</b>	<b>Barn</b>
<b>Deilliannau</b>	<b>Da</b>
<b>Ansawdd gwasanaethau addysg</b>	<b>Da</b>
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	<b>Rhagorol</b>

## Argymhellion

- A1 Lleihau'r amrywioldeb mewn deilliannau mewn ysgolion uwchradd
- A2 Sicrhau bod arfarnu gwasanaethau yn canolbwyntio'n glir ar fesur y deilliannau y mae plant a phobl ifanc yn eu cyflawni trwy'r gwasanaethau hynny

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd arolygwyr Estyn yn monitro cynnydd yr awdurdod lleol yn erbyn yr argymhellion hyn yn ystod eu hymweliadau cyswllt.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos i'w lledaenu ar wefan Estyn ar y modd y mae'r awdurdod wedi cyfuno'r gwasanaethau addysg a phlant yn effeithiol, ac effaith ddilynol hyn ar ddarpariaeth a deilliannau.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau: Da

Yn Sir Ddinbych, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu haddysg statudol. Mae gan awdurdod lleol Sir Ddinbych ffocws cyson ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'n dda. Nodweddd nodedig yw bod deilliannau yn Sir Ddinbych yn gryf ar draws bron pob un o'r dangosyddion allweddol dros sawl blwyddyn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. At ei gilydd, mae deilliannau'n cymharu'n dda â deilliannau mewn awdurdodau tebyg ledled Cymru, a gyda deilliannau cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau, ac mae nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) wedi gostwng yn dda dros gyfnod. Er gwaethaf perfformiad cyson gryf ar y cyfan, mae perfformiad ysgolion uwchradd unigol wedi amrywio dros y tair blynedd ddiwethaf. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfran yr ysgolion yn Sir Ddinbych y barnwyd eu bod o leiaf yn dda ar gyfer safonau mewn arolygiadau Estyn yn debyg i ganlyniadau arolygiadau yn genedlaethol. Nid oes unrhyw ysgol gynradd nac uwchradd yn yr awdurdod wedi cael barn anfodddhaol am safonau dros yr un cyfnod, ond nid yw'r naill na'r llall wedi cael barn ragorol chwaith.

Mae safonau disgyblion mewn Cymraeg mamiaith yn parhau'n gryf dros eu cyfnod yn yr ysgol.

At ei gilydd, mae dysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn perfformio yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer eu cyfoedion ledled Cymru, yn yr un modd â dysgwyr mwy abl.

Mae plant a phobl ifanc wedi cyfrannu at nodi blaenoriaethau strategol yn yr awdurdod yn y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, trwy eu haelodaeth o'r Fforwm Cyngor Ysgolion, y Fforwm Ieuentid a'r Fforwm Llysgenhadon Ifanc, gwnaeth llawer o bobl ifanc gyfraniad gwerthfawr at ymgynghoriad yr awdurdod lleol ar ei bolisi cludiant a chefnogodd waith cynllunio'r awdurdod o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Enghraifft nodedig arall yw'r ffordd y mae disgyblion ysgolion uwchradd yn trafod arfer dda a meysydd i'w gwella o ran y modd y mae eu hysgolion yn hyrwyddo iechyd meddwl a lles cadarnhaol yn eu cyfarfodydd cyngor ysgol rheolaidd ledled y sir. Yn ddiweddar, datblygodd aelodau o'r Cyngor Ieuentid arolwg cynhwysfawr ar gyfer disgyblion mewn ysgolion uwchradd ar draws yr awdurdod ar ansawdd a defnyddioldeb gwersi addysg bersonol a chymdeithasol. Maent yn rhannu'r canfyddiadau ag uwch swyddogion perthnasol a Grŵp Iechyd a Lles yr awdurdod.

Enghraifft hynod gryf arall o'r modd y mae plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau a wneir yw'r ffordd y mae plant sy'n derbyn gofal yn mynd ati i rannu eu barn ar agweddau ar waith yr awdurdod yn y 'Clwb KIC (plant mewn gofal)' bob hanner tymor. Maent yn rhannu syniadau creadigol ac arloesol ar sut gall yr awdurdod wella gwasanaethau a chymorth ar eu cyfer. Mae hyn wedi helpu hyrwyddo newidiadau buddiol i weithdrefnau adolygu statudol, gan sicrhau effaith gadarnhaol ar eu hyder yn y system gofal ac addysg.

Mae lefelau cyfranogiad disgyblion yn uchel ar draws y gweithgareddau a'r ymyriadau cyfoethogi, chwaraeon a lles niferus a gynigir gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Er enghraifft, mae nifer fawr o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol buddiol trwy fentrau 5x60 a Champau'r Ddraig. Mae cyfran uchel o bobl ifanc sy'n manteisio ar y gwasanaeth ieuenctid yn ennill dyfarniadau gwerthfawr ffurfiol a rhai nad ydynt yn ffurfiol, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol, chwaraeon a hamdden, iechyd a lles a dyfarniadau cymunedol.

Mae canlyniadau arolygiadau ysgolion ar gyfer lles dros y tair blynedd ddiwethaf yn gryfach na chyfartaledd Cymru ar y cyfan. At ei gilydd, mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn gwella. Fodd bynnag, mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn parhau i fod yn gymharol wan. Mae presenoldeb plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn dda iawn. Mae canran y disgyblion oedran ysgol gynradd ac uwchradd sy'n absennol yn barhaus wedi gostwng dros gyfnod. Mae'r ganran hon bellach ychydig islaw cyfartaledd Cymru mewn ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych, ond mae'n parhau i fod uwchlaw'r cyfartaledd mewn ysgolion uwchradd.

Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o'r ysgol am bum niwrnod neu lai wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy wedi amrywio, ond roedd yn is na chyfartaledd Cymru yn y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer. Ychydig iawn o waharddiadau parhaol a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

### **Ansawdd gwasanaethau addysg: Da**

Mae gan yr awdurdod ddiben moesol cryf sy'n sail i'w wasanaethau addysg, gan ganolbwyntio ar uchelgais i wneud y gorau o gyfleoedd bywyd pob dysgwr. Mae'r awdurdod wedi sefydlu cyd-drefniant gweithio sydd wedi'i integreiddio'n dda rhwng ei wasanaethau addysg a phlant, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth y cyngor ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae'r awdurdod yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn. Mae'n casglu ac yn dadansoddi ystod eang o wybodaeth am ysgolion, gan gynnwys data am gynnydd disgyblion, cyllid ysgolion a diogelu, er enghraifft. Cefnogir y gwaith hwn gan offeryn defnyddiol 'adolygu rheolaeth ysgolion' ar gyfer ysgolion sy'n annog dull cyson o hunanarfarnu ar draws ei ysgolion. Mae'r awdurdod yn sicrhau ansawdd y wybodaeth gan ysgolion ac yn ei defnyddio'n dda i herio a chynorthwyo ysgolion i fodloni gofynion statudol amrywiol a mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol.

Mae gan yr awdurdod bolisiâu, strategaethau a phrosesau clir iawn sy'n darparu sylfaen gref ar gyfer gwaith gwella ysgolion. Caiff rolau a chyfrifoldebau'r awdurdod a'i gonsortiw m gwella ysgolion rhanbarthol (GwE) eu diffinio'n glir a'u deall yn dda gan swyddogion yr awdurdod, staff y consortiw m ac arweinwyr ysgol.

Trwy uwch swyddogion, aelodau etholedig a staff GwE, caiff ysgolion yn Sir Ddinbych eu herio'n drylwyr ynglŷn â'u perfformiad, gan gynnwys y deilliannau ar gyfer disgyblion, ansawdd yr addysgu, y gofal y maent yn ei ddarparu, ac ansawdd yr arweinyddiaeth. Yn aml, caiff ysgolion eu cefnogi'n dda ac yn gymesur â'u hanghenion yn dilyn categorioedd ysgolion yn briodol.



Mae ysgolion y nodwyd eu bod yn destun pryder yn cael cymorth sylweddol, ac ymyrraeth, pan fydd angen. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn gwella ar gyflymdra priodol o ganlyniad. Mae'r awdurdod lleol fel arfer yn mynd i'r afael ag arweinyddiaeth wan mewn ysgolion mewn ffordd amserol ac urddasol, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n llwyddo i wneud hyn yn effeithiol heb ddefnyddio'i bwerau ymyrraeth ffurfiol.

Caiff ysgolion eu cefnogi'n dda mewn agweddau ar flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft o ran gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, ac o ran paratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Gall darpar uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, ac uwch arweinwyr ac arweinwyr canol presennol, elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd da i ddatblygu eu medrau arwain. Mae'r awdurdod yn darparu hyfforddiant ac arweiniad defnyddiol ar gyfer llywodraethwyr sy'n eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

Mae ysgolion yr awdurdod yn cydweithio'n dda trwy glystyrau o ysgolion cynradd a'u hysgolion uwchradd partner, sy'n eu helpu i rannu arfer dda yn rheolaidd a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Er enghraifft, mae pob clwstwr wedi mynd ati'n llwyddiannus i ddynodi arweinydd i ddarparu arweiniad ar ddatblygiadau cenedlaethol, fel rhoi safonau proffesiynol newydd ar waith ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

At ei gilydd, mae gan yr awdurdod ystod addas o ddarpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, sy'n effeithiol ar y cyfan o ran bodloni eu hanghenion. Mae'r awdurdod wedi integreiddio'i wasanaethau addysg a phlant yn llwyddiannus i greu'r hyn y mae'n ei alw'n 'wasanaeth cyfunol'. Mae'r dull hwn yn galluogi swyddogion i weithio ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth a chyrchu gwybodaeth yn effeithlon. O ganlyniad, mae swyddogion yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o anghenion disgyblion ac yn cynllunio ymyriadau perthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi arfarnu nifer o wasanaethau allweddol ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae hyn wedi arwain at newidiadau i'r ffordd y mae'n ariannu ysgolion ac ad-drefnu meysydd gwasanaeth. Mae hyn wedi helpu'r awdurdod i gefnogi ysgolion a disgyblion yn fwy effeithiol mewn meysydd fel anawsterau lleferydd, cyfathrebu ac iaith ac anghenion ymddygiadol. Mae'r drefn o ddarparu cyngor arbenigol i ysgolion trwy gyfrwng y Gymraeg wedi gwella hefyd. Mae'r awdurdod wedi nodi bod angen datblygu darpariaeth ymhellach ar gyfer disgyblion Cymraeg eu hiaith, ac adolygu darpariaeth sy'n seiliedig ar adnoddau ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran cynllunio'r rhain.

Mae'r awdurdod yn gosod disgwyliadau clir o'r holl ysgolion a rhieni o ran presenoldeb disgyblion. Mae'r awdurdod yn ymateb yn briodol i bryderon ynglŷn â phresenoldeb, a phan fydd angen, mae wedi cynnal adolygiadau manwl o ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol.

Fodd bynnag, mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o'r ysgol am bum niwrnod neu lai wedi bod yn cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae ddwywaith cyfradd y rhanbarth, a chryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r

awdurdod yn herio ysgolion sydd â chyfraddau gwaharddiadau uwch yn drylwyr. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn dadansoddi'n systematig p'un a oes anghenion dysgu ychwanegol gan ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd, ac ni all fod yn hyderus fod ysgolion yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu bodloni'n ddigon da.

